Osteopathiaid dan ymchwiliad

Cyngor Osteopathig Cyffredinol

# Canllawiau ar wrandawiadau i osteopathiaid



CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Cyn y gwrandawiad | 4 |
| Cynrychiolaeth gyfreithiolegal | 4 |
| Nodiadau ymarfer ar gyfer gwrandawiadau | 4 |
| Paratoi i fynd i'r Gwrandawiad | 5 |
| Cyflwyno dogfennau | 5 |
| Penderfynu peidio â mynd i'r Gwrandawiad | 6 |
| Mynd i'r Gwrandawiad | 6 |
| Ty Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a'r Asesydd Cyfreithiolo | 7 |
| Cyflwynydd yr achos a'r tystion | 7 |
| Swyddog Gwrandawiadau neu Glerc y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol | 7 |
| Y Pyhoedd, y Pasg ac Arsylwyr | 7 |
| Recordio | 7 |
| Yn ystod y Gwrandawiad | 8 |
| Canfyddiadau'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol | 9 |
| Cyhoeddi ein canfyddiadau | 10 |
| Rhannu'r canlyniadau gyda chi | 11 |
| Apeliadau | 11 |

## ICYFLWYNIAD

Mae cynnal diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathig yn golygu bod yn rhaid i ni ystyried ac ymchwilio i gwynion am ymddygiad, cymhwysedd neu iechyd osteopathiaid.

Nod y canllawiau hyn yw rhoi arweiniad i osteopathiaid ynghylch paratoi ar gyfer gwrandawiad gerbron Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu Bwyllgor Iechyd y GOsC, a mynychu gwrandawiad. Mae'r canllawiau'n esbonio hefyd sut y gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y broses hon.

Canllaw cyffredinol yn unig yw hwn ac ni ddylid ei ddefnyddio yn lle unrhyw gyngor cyfreithiol neu gyngor gan eich yswirwyr indemniad proffesiynol.



## CYN Y GWRANDAWIAD

Byddwch wedi derbyn llythyr gan weithiwr achos y GOsC yn eich hysbysu bod penderfyniad wedi'i wneud i gynnal gwrandawiad yn eich achos gerbron Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu Bwyllgor Iechyd y GOsC.

Bydd gweithiwr achos y GOsC wedi gofyn i chi lenwi holiadur rhestru hefyd i gadarnhau pryd fyddwch chi ar gael i fynd i wrandawiad.

Cyn y gwrandawiad, rhowch wybod i ni am unrhyw anghenion hygyrchedd neu anghenion eraill sydd gennych fel y gallwn wneud y trefniadau angenrheidiol. Er enghraifft, efallai y bydd angen mynediad cadair olwyn, system dolen clyw, neu gyfieithydd iaith neu iaith arwyddion.

Os ydych chi'n siaradwr Cymraeg ac yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, rhowch wybod i'ch swyddog achos cyn gynted â phosibl. Yn ystod y gwrandawiad, gallwch ddewis cymryd rhan yn y gwrandawiad yn Gymraeg. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni cyn i'r gwrandawiad ddigwydd, fel y gallwn wneud trefniadau i gyfieithydd Cymraeg fod yn y gwrandawiad.



## CYNRYCHIOLAETH GYFREITHIOL

Rydyn ni'n eich cynghori i roi gwybod i'ch cynrychiolydd cyfreithiol am y penderfyniad i gynnal gwrandawiad yn eich achos chi. Bydd eich cynrychiolydd cyfreithiol yn gallu rhoi cyngor a gwybodaeth i chi am y gwrandawiad a'r camau sydd eu hangen i baratoi ar ei gyfer.

Os nad ydych chi'n cael eich cynrychioli, dylech ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol neu gysylltu â'ch yswirwyr indemniad proffesiynol i gael cymorth a chyngor mewn perthynas â'r gwrandawiad a'r camau rydyn ni'n eu cymryd.

Os ydych chi'n aelod o'r Sefydliad Osteopathi (iO), gallwch gysylltu â nhw am gymorth a chyngor.

Os nad oes gennych chi unrhyw gynrychiolaeth gyfreithiol drwy'ch yswirwyr indemniad proffesiynol ac nad ydych chi'n aelod o'r iO, efallai y byddwch chi'n gallu cael cymorth cyfreithiol am ddim gan Advocate (**weareadvocate.org.uk**), sef elusen sy'n helpu i ddod o hyd i gymorth cyfreithiol am ddim gan fargyfreithwyr gwirfoddol.

## NODIADAU YMARFER AR GYFER GWRANDAWIADAU

Mae'r GOsC wedi llunio nifer o Nodiadau Ymarfer i helpu osteopathiaid a'u cynrychiolwyr cyfreithiol i baratoi ar gyfer y gwrandawiad. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan yn: **bit.ly/GOsC-practicenotes**

Mae copïau papur ar gael hefyd – gofynnwch i ni os hoffech chi gael un.

## PARATOI I FYND I'R GWRANDAWIAD

Pan fydd eich achos yn cael ei atgyfeirio gan y Pwyllgor Ymchwilio, bydd eich gweithiwr achos yn anfon holiadur rhestru atoch chi neu'ch cynrychiolydd cyfreithiol (neu'r ddau ohonoch) yn gofyn am wybodaeth sy'n berthnasol i hyd ac amseriad y gwrandawiad terfynol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch yn yr holiadur i asesu pa mor hir y bydd yn ei gymryd i ni gwblhau'r achos a phryd y gellir ei restru ar gyfer gwrandawiad. Os oes modd, byddwn yn ceisio ystyried eich argaeledd chi a'ch tystion wrth restru eich achos am wrandawiad a rhoi cymaint o rybudd â phosibl i chi. Ein nod yw rhestru gwrandawiadau o fewn chwe mis i' atgyfeirio’r achos gan y Pwyllgor Ymchwilio.

Yna, byddwn yn anfon hysbysiad am y gwrandawiad atoch chi neu'ch cynrychiolydd cyfreithiol (neu'r ddau ohonoch chi) ac amserlen gwrandawiad, o leiaf 28 diwrnod cyn y gwrandawiad. Mae'r hysbysiad am y gwrandawiad yn cadarnhau'r wybodaeth ganlynol:

- Dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad
- Enwau'r tystion y mae'r GOsC yn bwriadu eu galw yn y gwrandawiad
- Enwau aelodau'r Pwyllgor a fydd yn clywed eich achos
- Cadarnhad bod gennych chi hawl i fynd i'r gwrandawiad a/neu gael eich cynrychioli'n gyfreithiol.

Byddwn yn rhoi copi o'n bwndel tystiolaeth i chi o leiaf 28 diwrnod cyn y gwrandawiad hefyd. Bydd yn cynnwys yr honiad ffurfiol a manylion y cyhuddiad (a elwir yn fanylion ffeithiol), a'r holl dystiolaeth rydyn ni’n bwriadu dibynnu arni yn y gwrandawiad.

## CYFLWYNO DOGFENNAU

Byddwch chi neu'ch cynrychiolydd cyfreithiol (neu'r ddau ohonoch chi) yn derbyn e-bost hefyd gan y swyddog gwrandawiadau neu'r clerc yn dweud wrthych chi erbyn pryd mae angen i chi wneud y canlynol (os nad ydych chi wedi gwneud hynny eisoes)

- cadarnhau enwau'r tystion rydych chi’n bwriadu eu galw yn y gwrandawiad
- cyflwyno’ch dadl fras (dogfen ysgrifenedig a roddir i'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol cyn y gwrandawiad sy'n crynhoi'r materion yn eich achos chi)
- cyflwyno'r holl dystiolaeth rydych chi’n bwriadu dibynnu arni.

Os ydych chi'n siaradwr Cymraeg, gallwch gyflwyno'r wybodaeth hon i ni yn Gymraeg. Cofiwch roi gwybod i'ch swyddog achos cyn gynted â phosibl os hoffech ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eich gwrandawiad.

## PENDERFYNU PEIDIO Â MYND I'R GWRANDAWIAD

Dylech chi neu'ch cynrychiolydd cyfreithiol (neu'r ddau ohonoch chi) gadarnhau i'ch gweithiwr achos a ydych chi'n bwriadu mynd i'r gwrandawiad.

Os byddwch chi'n penderfynu peidio â mynd i'r gwrandawiad, gallwch gael eich cynrychioli'n gyfreithiol ynddo o hyd. Bydd eich gweithiwr achos yn dweud wrthych chi beth yw'r canlyniad.

Os penderfynwch chi beidio â mynd i'r gwrandawiad neu gael eich cynrychioli'n gyfreithiol ynddo, gall y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu'r Pwyllgor Iechyd fynd rhagddo beth bynnag. Mae nodyn ymarfer ar ein gwefan, Proceeding in the Absence of the Registrant a allai fod yn ddefnyddiol i chi.


## MYND I'R GWRANDAWIAD

Ar ddiwrnod cyntaf y gwrandawiad, dylech geisio cyrraedd o leiaf 20 munud cyn i'r gwrandawiad ddechrau. Ar ôl cyrraedd, bydd aelod o staff y GOsC yn eich tywys i'ch ystafell aros breifat. Os oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol, gofynnir i'ch cynrychiolydd ddisgwyl yn yr un ystafell â chi.

Bydd lluniaeth fel coffi, te a dŵr ar gael tra byddwch chi'n disgwyl.

Os ydych chi'n siarad Cymraeg ac wedi gofyn am ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y gwrandawiad, cewch eich cyflwyno i'r cyfieithydd Cymraeg cyn i'r gwrandawiad ddechrau.

TMae'r diagram isod yn rhoi syniad i chi o sut y bydd ystafell y gwrandawiad yn cael ei threfnu ar y diwrnod.



Efallai y bydd adegau pan fydd angen cynnal gwrandawiadau o bell. Mae ein **Canllawiau a'n Protocol Gwrandawiadau o Bell** yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am yr hyn sy'n digwydd cyn ac yn ystod gwrandawiad o bell. Os ydych chi wedi gofyn am ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y gwrandawiad, bydd cyfieithydd Cymraeg yn ymuno â'r gwrandawiad ar-lein a byddwch yn cael cyfarwyddiadau cyn i'r gwrandawiad ddechrau, i'ch cynorthwyo i gymryd rhan.

## Y PWYLLGOR YMDDYGIAD PROFFESIYNOL A'R ASESYDD CYFREITHIOL

Mae'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn cynnwys tri aelod pwyllgor. Bydd o leiaf un aelod sy'n osteopath ac un aelod lleyg. Bydd y cadeirydd yn aelod lleyg.

Bydd asesydd cyfreithiol yn bresennol hefyd i gynghori'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ar faterion yn ymwneud â'r gyfraith a gweithdrefnau. Ni fydd yr asesydd cyfreithiol yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau mewn unrhyw ffordd.

Cyn y gwrandawiad, bydd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn cael copi o'n bwndel tystiolaeth ac unrhyw ddogfennau a dderbyniwyd gennych chi.

## CYFLWYNYDD YR ACHOS A'R TYSTION

Bydd ein cyflwynydd achos a'n tystion (yr achwynydd ac unrhyw bobl eraill sydd wedi gwneud datganiad yn yr achos) yn bresennol yn y gwrandawiad hefyd. Gofynnir iddyn nhw ddisgwyl mewn ystafell aros breifat arall.

## SWYDDOG GWRANDAWIADAU NEU GLERC Y PWYLLGOR YMDDYGIAD PROFFESIYNOL

Bydd clerc yn bresennol hefyd i helpu i sicrhau bod y gwrandawiad yn mynd rhagddo'n ddidrafferth.

## Y CYHOEDD, Y WASG AC ARSYLWYR

Fel arfer, cynhelir gwrandawiadau'n gyhoeddus, oni bai bod rheswm pam y mae'n rhaid cynnal rhan o'r gwrandawiad neu'r cyfan ohono'n breifat. Mae hyn yn golygu bod aelodau'r cyhoedd (gan gynnwys y wasg) yn gallu bod yn bresennol hefyd.

Mae seddi ar gael yng nghefn ystafell y gwrandawiad lle gall aelodau'r cyhoedd eistedd.

Gallwch ddod â rhywun gyda chi i'ch cefnogi– ffrind neu berthynas efallai. Os ydych chi'n dod â rhywun gyda chi i'ch cefnogi, gofynnir iddyn nhw eistedd yn ardal eistedd y cyhoedd y tu mewn i ystafell y gwrandawiad.

## RECORDIO

Bydd y clerc yn recordio sain y trafodion.

## YN YSTOD Y GWRANDAWIAD

Ar ddechrau'r gwrandawiad, bydd y clerc yn eich tywys chi a'ch cynrychiolydd cyfreithiol i ystafell y gwrandawiad ac yn dangos i chi ble i eistedd.

Gwnewch yn siŵr bod eich ff  n symudol wedi i ddiffodd cyn i chi fynd i mewn i ystafell y gwrandawiad.   i chaniateir camer  u, offer recordio t  p nac unrhyw ddyfais arall sy n gallu gwneud cofnod parhaol yn yr ystafell gwrandawiad.

Bydd y gwrandawiad yn dechrau gyda chadeirydd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn cyflwyno ei hun a phawb arall sy'n bresennol yn yr ystafell.

Gofynnir i chi neu'ch cynrychiolydd cyfreithiol gadarnhau'ch enw. Gofynnir i gyflwynydd ein hachos ddarllen yr honiad amdanoch chi.

Yna bydd cadeirydd y pwyllgor yn gofyn i chi gadarnhau a ydych chi'n cyfaddef i unrhyw un o'r ffeithiau a honnir. Os ydych chi'n cyfaddef i unrhyw un o'r ffeithiau a honnir, ystyrir bod y ffeithiau hynny wedi'u profi.

Os byddwch chi'n cyfaddef i'r holl ffeithiau a honnir, bydd y cadeirydd yn cyhoeddi'n ffurfiol bod yr holl ffeithiau wedi'u derbyn a'u profi. Yna bydd y pwyllgor yn symud ymlaen i'r cam nesaf sef penderfynu a oedd y ffeithiau a brofwyd yn gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol – gweler isod.

Os ydych chi'n anghytuno â rhai o'r ffeithiau a honnir neu bob un ohonynt, bydd ein cyflwynydd achos yn agor yr achos yn ffurfiol a bydd y gwrandawiad yn dilyn y weithdrefn isod.

Bydd cyflwynydd yr achos yn cyflwyno'r dystiolaeth i gefnogi ein hachos ni yn gyntaf. Gall alw unrhyw dystion yn yr achos a gofyn cwestiynau iddyn nhw unwaith y bydd y tystion wedi tyngu llw neu gadarnhad. Gelwir hyn yn brif holiad.

Yna cewch chi neu'ch cynrychiolydd cyfreithiol gyfle i ofyn unrhyw gwestiynau i'n tystion ni. Gelwir hyn yn groesholi. Unwaith y byddwch chi a'ch cynrychiolydd cyfreithiol wedi gofyn eich holl gwestiynau, efallai y bydd cyflwynydd yr achos yn gofyn cwestiynau pellach i'n tystion.

Yna gall y pwyllgor ofyn cwestiynau i'n tystion. Unwaith y bydd ein tystion wedi rhoi tystiolaeth, bydd y cadeirydd yn eu rhyddhau'n ffurfiol fel tystion. Efallai y bydd rhai tystion yn dewis aros am weddill y gwrandawiad. Os felly, gofynnir iddyn nhw eistedd yn yr ardal eistedd ar gyfer arsylwyr.

Ar ôl i bob un o'n tystion roi tystiolaeth, bydd y cadeirydd yn gofyn i chi neu'ch cynrychiolydd cyfreithiol agor eich achos.

Ar y cam hwn, gallwch chi neu'ch cynrychiolydd cyfreithiol alw ar eich tystion i roi tystiolaeth o dan lw yn unol â'u cred grefyddol, neu gadarnhad (datganiad difrifol) os nad yw'r tyst am dyngu llw. Bydd angen i chi neu'ch cynrychiolydd cyfreithiol ofyn cwestiynau i'ch tystion yn gyntaf. Yna, bydd cyflwynydd ein hachos yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'ch tystion. Efallai y bydd gan y pwyllgor gwestiynau i'ch tystion hefyd.

Gallwch chi roi tystiolaeth o dan lw (neu gadarnhad) hefyd. Os byddwch chi'n rhoi tystiolaeth, gall cyflwynydd yr achos a'r pwyllgor ofyn cwestiynau i chi.

### Datganiadau cloi

Unwaith y byddwch chi ac, os yn berthnasol, eich tystion, wedi rhoi'ch tystiolaeth ac yn cael eich rhyddhau fel tystion, gwahoddir y ddau barti i wneud datganiadau cloi am yr achos. Bydd cyflwynydd yr achos yn gwneud ei ddatganiad cloi yn gyntaf, ac yna chi neu'ch cynrychiolydd cyfreithiol.

Bydd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn derbyn cyngor cyfreithiol gan yr asesydd cyfreithiol cyn iddo ymneilltuo i wneud penderfyniad ar ffeithiau'r achos.

## CANFYDDIADAU'R PWYLLGOR YMDDYGIAD PROFFESIYNOL

Mae'r pwyllgor yn mynd i sesiwn breifat i wneud ei benderfyniad, a fydd yn digwydd mewn tri cham.

Bydd yr asesydd cyfreithiol yn bresennol yn yr ystafell a gall helpu'r pwyllgor i ddrafftio ei benderfyniad. Fodd bynnag, nid yw'r aseswr cyfreithiol yn chwarae unrhyw ran yn y broses benderfynu.

### Cam 1

Os oes unrhyw anghydfod ynghylch rhai o'r ffeithiau a honnir neu bob un ohonynt, bydd angen i'r pwyllgor ystyried yn gyntaf a yw'n dod i'r casgliad bod y ffeithiau hynny wedi'u profi. Mae'n rhaid i ni brofi'r achos yn eich erbyn. Gelwir safon y prawf sy'n berthnasol yn 'bwysau tebygolrwydd'. Mae hyn yn golygu mai dim os yw'n ystyried ei bod yn fwy tebygol na pheidio ei bod yn wir y bydd y pwyllgor yn dod i'r casgliad bod y ffaith honedig 'wedi'i phrofi'.

Os na fydd y pwyllgor yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw un o'r ffeithiau wedi'u profi, bydd yn gofyn i'r ddau barti ddychwelyd i ystafell y gwrandawiad, lle bydd yn cyhoeddi'r penderfyniad yn ffurfiol ac yn dod â'r achos i ben.

Os bydd y pwyllgor yn dod i'r casgliad bod rhai neu bob un o'r ffeithiau wedi'u profi, bydd yn gofyn i'r ddau barti ddychwelyd i ystafell y gwrandawiad fel y gall y cadeirydd gyhoeddi'r penderfyniad a'r rhesymau yn ffurfiol. Yna bydd y gwrandawiad yn symud ymlaen i gam 2.

### Cam 2

Unwaith y bydd y pwyllgor wedi cyhoeddi ei ganfyddiadau, gwahoddir cyflwynydd yr achos a chi neu'ch cynrychiolydd cyfreithiol i wneud cyflwyniadau ar ymddygiad proffesiynol annerbyniol.

Gall yr asesydd cyfreithiol roi cyngor cyfreithiol i'r pwyllgor ac yna bydd y pwyllgor yn ymgynnull yn breifat i ystyried a oedd y ffeithiau a ganfuwyd yn gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol.

Ar ôl i'r pwyllgor ddod i benderfyniad, gwahoddir y ddwy ochr i ystafell y gwrandawiad a bydd y cadeirydd yn cyhoeddi penderfyniad y pwyllgor ar ymddygiad proffesiynol annerbyniol.

### Cam 3

Os bydd canfyddiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol yn cael ei wneud, bydd y pwyllgor yn gosod un o'r sancsiynau canlynol:

- rhybudd
- gorchymyn amodau ymarfer, a fydd yn eich galluogi i barhau i weithio mewn ffordd gyfyngedig
- gorchymyn atal dros dro am gyfnod o amser
- tynnu eich enw oddi ar y gofrestr.

Wrth benderfynu pa gosb i'w gosod, bydd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn ystyried dogfennau cyfarwyddyd[1].

## CYHOEDDI EIN CANFYDDIADAU

Mae ein **Polisi Cyhoeddi Addasrwydd** i Ymarfer yn nodi sut, ac am ba hyd, rydyn ni'n cyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â phenderfyniadau ein pwyllgorau addasrwydd i ymarfer.

Byddwn yn cyhoeddi canfyddiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol a wneir gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (mewn gwrandawiad neu o dan Weithdrefn Rheol 8) ar ein gwefan ac yn yr **Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer blynyddol**.

Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd, ond ni fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch iechyd na'ch cyflwr.

[1] Gan gynnwys y Canllawiau Cosbau. Gellir cyrchu'r fersiwn ddiweddaraf o'r ddogfen ganllawiau hon ar wefan y GOsC yn www.osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/fitness-to-practise/indicative-sanctions-guidance

## RHANNU'R CANLYNIADAU GYDA CHI

Mae gennym ni **bolisi ar Hysbysu Ymchwiliadau a Chanlyniadau Addasrwydd i Ymarfer**. Mae ar gael ar ein gwefan ac yn esbonio'r wybodaeth y byddwn yn ei darparu i drydydd partïon am ymchwiliad a'i ganlyniadau.

Mae enghreifftiau o drydydd partïon yn cynnwys eich cyflogwr, ac unrhyw un y gallai fod gennych chi gontract neu drefniant arall gydag ef i ddarparu gwasanaethau, ac unrhyw reoleiddiwr gofal iechyd arall y gallech fod wedi cofrestru gydag ef.

## APELIADAU

Mae gennych chi hawl i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a'r Pwyllgor Iechyd. Os ydych chi am apelio, dylech gael eich cyngor cyfreithiol annibynnol eich hun.

Gall yr Awdurdod Safonau Proffesiynol apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol hefyd.

Rydyn ni'n gobeithio y bydd yr arweiniad hwn yn ddefnyddiol i chi. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'n Tîm Rheoleiddio

E-bost: **regulation@osteopathy.org.uk**

Ffôn: **020 7357 6655 (x224)**

Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Osteopathy House • 176 Tower Bridge Road • London SE1 3LU
Ffôn: 020 7357 6655 • E-bost: info@osteopathy.org.uk • www.osteopathy.org.uk




www.facebook.com/goscnews

twitter.com/gosc_uk

## Cyfarwyddiadau

**Ar Drên:** Yr orsaf brif linell agosaf yw London Bridge, ac mae angen cerdded 10–15 munud oddi yno.

**Ar y Tube (London Underground):**
Y gorsafoedd Tube agosaf yw London Bridge (Jubilee Line a Northern Line, cangen Bank), ac mae angen cerdded 10–15 munud oddi yno, a Tower Hill (llinellau District a Circle), ac mae angen cerdded 10–15 munud o'r fan honno.

**Ar y Bws:** Mae bysiau rhif 188, 78, 42, 381 a RV1 i gyd yn stopio ger Osteopathy House.

**Mewn car:** Mae gennym gyfleusterau parcio, ond mae lleoedd yn gyfyngedig. Mae meysydd parcio cyhoeddus gerllaw hefyd.

Crystal Mark 22463
Clarity approved by Plain English Campaign

The GOsC is a charity registered in England and Wales (1172749)

© GOsC 2017